Gallai cynlluniau'r Llywodraeth effeithio ar eich meddygfa chi. Am fanylion sut y gellwch chi ddangos eich cefnogaeth i bractis cyffredinol y GIG, darllenwch y daflen hon, os gwelwch yn dda.

PEN-BLWYDD HAPUS I BRACTIS CYFFREDINOL Y GIG YN 60 MLWYDD OED!

Mae ar eich meddygfa leol eich angen chi – llofnodwch y cerdyn, os gwelwch yn dda, i ddangos eich cefnogaeth.

Eleni, mae'r GIG yn dathlu ei ben-blwydd yn 60 oed. Dros 60 o flynyddoedd, mewn meddygfeydd lleol meddygon teulu, fe ddarparwyd y gofal personol y mae arnoch chi a'ch teulu ei angen yn agos i'ch cartref gan bobl sy'n eich adnabod chi ac yn gwybod am eich iechyd.

Ond rydym yn bryderus iawn y bydd cynlluniau newydd y Llywodraeth i newid y ffordd y darperir gwasanaethau meddygon teulu yn peryglu'r gofal cynhwysfawr, o safon uchel, y mae eich meddygfa leol yn ei ddarparu ar gyfer cleifion.

Y BYGYTHIAD I'CH MEDDYGFA CHI

Cyflwyno rhagor o gwmnïau masnachol

Mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd Meddygon Teulu'r GIG yn cael eu rhedeg gan Feddygon Teulu ar ran eu cleifion. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn awr yn annog cwmnïau masnachol i redeg meddygfeydd Meddygon Teulu.

Mae'r cwmnïau hyn yn atebol yn y lle cyntaf i gyfranddalwyr ac nid i gleifion.

Mae'n debygol y cynigir contractau tymor byr i gwmnïau masnachol. Gallai hyn arwain at newid mwy aml ymhlith y meddygon, na fyddant efallai yn eich adnabod chi a'ch anghenion iechyd tymor hir. Peth gwael yw hyn i gleifion.

Polyclinigau

Bwriad y Llywodraeth yw cyflwyno hyd at 250 o ganolfannau iechyd newydd mawr - a elwir yn aml yn bolyclinigau - ledled Lloegr yn lle cyllido gwasanaethau ychwanegol mewn meddygfeydd lleol.

Mae polyclinigau'n ddrud iawn i'w datblygu a'u rhedeg ac nid oes tystiolaeth fod eu hangen mewn llawer o ardaloedd.

Efallai y bydd y canolfannau iechyd hyn yn cynnwys hyd at 25 Meddyg Teulu, a'n pryder ni yw y gall cleifion golli'r berthynas bersonol sydd ganddynt, fel arfer, gyda'u meddyg teulu presennol.

O ganlyniad i'r newidiadau hyn rydym yn bryderus y bydd yna lawer o feddygfeydd lleol na fyddant yn dal eu tir. Credwn y byddai'n well gwario arian y GIG ar ehangu'r gwasanaethau o ansawdd da ym meddygfa leol eich Meddyg Teulu chi eich hun.

Pam rydym ni mor bryderus?

Mae arnom eisiau i chi gael eich trin gan Feddygon Teulu sy'n eich gweld fel cleifion, nid cwsmeriaid.

Mae arnom eisiau i'r Llywodraeth:

- Wella'r gwasanaethau i gleifion drwy fuddsoddi ymhellach yn y meddygfeydd Meddygon Teulu presennol a pheidio â gwastraffu arian ar bolyclinigau diangen.
- Rhoi'r gorau i'w chynlluniau i annog cwmnïau masnachol i redeg meddygfeydd Meddygon Teulu

Cefnogwch eich meddygfa leol drwy lofnodi Cerdyn Pen-blwydd Practis Cyffredinol y GIG yn 60 mlwydd oed!

Oherwydd ein bod yn poeni gymaint, rydym yn casglu llofnodion ar gyfer deiseb ledled y wlad, sy'n annog y Llywodraeth i newid ei chynlluniau.

Byddwn yn cyflwyno'n deiseb i'r Prif Weinidog ym mis Mehefin gyda Cherdyn Pen-blwydd Practis Cyffredinol y GIG yn 60 mlwydd oed.

Os nad oes arnoch eisiau i'r newidiadau yma ddigwydd - dywedwch wrth bobl!

Nid wrth y Prif Weinidog yn unig y mae angen i ni ddweud.

- Dywedwch wrth eich cyfeillion a'ch teulu a gofynnwch iddynt hwythau lofnodi'n deiseb hefyd
- Ysgrifennwch at yr Ymddiriedolaeth Gofal Cychwynnol (YGC/PCT) sy'n trefnu eich gwasanaethau GIG lleol chi
- Ysgrifennwch at eich Aelod Seneddol
- Ysgrifennwch at eich Cyngor lleol (i sylw eu pwyllgor trosolwg a chraffu ar iechyd)
- Ysgrifennwch at bapur newydd neu cysylltwch â'ch gorsaf radio leol i ddweud wrthynt faint yr ydych yn cefnogi'ch meddygfa

Caiff eich llythyrau eu darllen, a gall eich sylwadau wneud gwahaniaeth!

Rhagor o wybodaeth
Os oes arnoch angen manylion cyswllt ar gyfer y grwpiau hyn, holwch yn y dderbynfa neu, fel arall, ymwelwch â'n gwefan, www.supportyoursurgery.org.uk am ragor o fanylion; neu siaradwch â'ch meddyg fydd yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau a fo gennych.

Cefnogir gan Gymdeithas Feddygol Prydain a Chronfa Amddiffyn y Meddygon Teulu.